## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi’r gofynion wrth ddatblygu eich ymarfer myfyriol. Mae'n golygu cysoni eich ymarfer â gweledigaeth, gwerthoedd a safonau proffesiynol y gweithle, a gwreiddio diwylliant o ymarfer myfyriol a datblygiad proffesiynol parhaus.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi a chytuno ar sut mae eich rolau a'ch cyfrifoldebau yn cyd-fynd â gweledigaeth, gwerthoedd a chanlyniadau'r gweithle
2. mynd ati gydag eraill i nodi'r safonau ymarfer proffesiynol cyfredol sy'n berthnasol i'ch rôl a'ch cyfrifoldebau gwaith
3. gofyn am adborth gan eraill ynghylch eich gwybodaeth, sgiliau a safonau ymarfer proffesiynol
4. cael gafael ar gymorth i ddatblygu eich sgiliau ymarfer myfyriol
5. myfyrio ar eich ymarfer wrth weithio
6. mynd ati ag eraill i fyfyrio ynghylch eich profiad ymarfer blaenorol
7. mynd ati gydag eraill i fyfyrio ynghylch sut mae eich gwerthoedd, eich diwylliant a'ch rhagdybiaethau yn effeithio ar eraill
8. mynd ati gydag eraill i nodi'r hyn a ddysgwyd wrth fyfyrio a sut mae gwella'r ffordd rydych chi'n gweithio
9. cytuno ar feysydd ar gyfer dysgu a datblygu a sut y byddant yn cael eu cyflawni
10. gofyn am gymorth gan eraill a goresgyn heriau wrth i chi ddysgu a datblygu
11. ymgymryd â gweithgareddau dysgu a datblygu
12. defnyddio dysgu newydd yn eich ymarfer
13. defnyddio prosesau goruchwylio ac arfarnu ar gyfer ymarfer myfyriol a datblygu dysgu a datblygu newydd
14. defnyddio prosesau goruchwylio ac arfarnu i fonitro a gwerthuso dysgu a datblygu newydd
15. mynd ati i rannu ag eraill sut rydych chi wedi gwella'r ffordd rydych yn gweithio
16. cyfrannu at wreiddio diwylliant o fyfyrio a datblygiad proffesiynol parhaus
17. cyfrannu at gofnodion ac adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer datblygu ymarfer myfyriol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut mae ymarfer myfyriol yn gallu cefnogi gweledigaeth, gwerthoedd a chanlyniadau'r gweithle
2. rôl ymarfer fyfyriol o ran cynnal safonau ymarfer proffesiynol
3. sut mae defnyddio modelau myfyriol i ddatblygu eich sgiliau myfyrio a gwella'r ffordd rydych chi'n gweithio
4. sut mae myfyrio ar eich ymarfer i wella eich dysgu a datblygu
5. dylanwad diwylliant, cefndir a daliadau ysbrydol ar ymarfer myfyriol
6. sut mae ymarfer myfyriol yn gallu gwella rheoleiddio emosiynol, gwytnwch a llesiant yn y gweithle
7. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth ddatblygu ymarfer myfyriol
8. pam ei fod yn bwysig nodi'r heriau i ddysgu a gofyn am gymorth i'w goresgyn
9. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar ddatblygu ymarfer myfyriol a dysgu a datblygu
10. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma mewn ymarfer myfyriol a dysgu a datblygu
11. yr ystod o ddulliau dysgu ac adnoddau, gan gynnwys adnoddau digidol
12. sut mae rhoi'r hyn a ddysgwyd o'r newydd ar waith
13. sut mae myfyrio ar y gwahaniaeth mae dysgu newydd wedi'i wneud i'ch ymarfer
14. rôl prosesau goruchwylio ac arfarnu ar gyfer ymarfer myfyriol a datblygu dysgu a datblygu newydd
15. rôl prosesau goruchwylio ac arfarnu i fonitro a gwerthuso dysgu a datblygu newydd
16. manteision rhannu'r hyn rydych chi wedi'i ddysgu gydag eraill
17. eich cyfrifoldeb eich hun dros ddatblygiad proffesiynol parhaus
18. sut mae cyfrannu at wreiddio diwylliant o fyfyrio a datblygiad proffesiynol parhaus yn y gweithle
19. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen i ddatblygu ymarfer myfyriol
20. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer datblygu ymarfer myfyriol a dysgu a datblygu
21. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth ddatblygu ymarfer myfyriol
22. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio

wrth ddatblygu ymarfer myfyriol, a sut i fynd i'r afael â hyn

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Datblygu ymarfer myfyriol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD23 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Ymarfer Myfyriol, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |